# Crynodeb Gweithredol

1. Ar 16 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y llywodraeth ymgynghoriad ar yr Oedran Ymddeol Gorfodol Barnwrol i geisio barn ar gynigion i godi'r oedran ymddeol gorfodol (MRA) ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol (JOH) i naill ai 72 neu 75, ac i ganiatáu i benodiadau ynadon gael eu hymestyn y tu hwnt i'r oedran ymddeol gorfodol, fel sy'n bosibl eisoes i rai barnwyr lle mae budd i'r cyhoedd. Nid yw swyddi barnwrol y mae'r MRA ar eu cyfer yn fater datganoledig i Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig wedi ymgynghori ar wahân ar y mater hwn a byddant yn cyhoeddi eu hymatebion maes o law.

2. Ac ystyried y pwysau presennol o ran adnoddau ar lawer o swyddi barnwrol yng Nghymru a Lloegr a'r gwelliannau yn y disgwyliad oes yn y DU ers i'r MRA o 70 gael ei osod dros 25 mlynedd yn ôl, roeddem o'r farn y byddai codi'r MRA yn ffordd gymesur ac effeithiol o sicrhau ein bod yn gallu recriwtio a chadw deiliaid swyddi barnwrol i fodloni gofynion ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd.

3. Ni wnaethom ymgynghori ar ddileu'r MRA gan ein bod o'r farn ei fod yn dal yn ofyniad pwysig ar gyfer swydd farnwrol sy'n helpu i gadw ffydd y cyhoedd yn y farnwriaeth; amddiffyn annibyniaeth farnwrol drwy liniaru'r angen am asesiadau unigol o iechyd a gallu deiliad swydd farnwrol i barhau i eistedd yn eu blynyddoedd diweddarach; cefnogi cynllunio adnoddau barnwrol; a hyrwyddo amrywiaeth y farnwriaeth drwy sicrhau llif cyson o ymddeoliadau a phenodiadau newydd.

4. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 16 Hydref 2020 gyda dros fil o ymatebion wedi dod i law, y rhan fwyaf ohonynt gan ddeiliaid swyddi barnwrol a'u cymdeithasau cynrychioladol. Cawsom ymatebion hefyd gan aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol a'u cyrff cysylltiedig, yn ogystal â'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol, Pwyllgor Dethol Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin, academyddion a'r trydydd sector.

5. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi cynyddu'r MRA i 75, gan ystyried mai dyma fyddai'r opsiwn a fyddai'n sicrhau'r manteision mwyaf o gadw JOH profiadol a denu ymgeiswyr newydd i swyddi barnwrol. Nododd llawer o ymatebwyr hefyd y byddai codi'r MRA i 75 yn adlewyrchu'r newidiadau o ran disgwyliad oes yn well ac y byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i JOH eu hunain benderfynu pryd i ymddeol.

6. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebion yn nodi y byddai'n well ganddynt godi'r MRA i 72 neu'n ffafrio dim newid o gwbl. Roedd yr ymatebion hyn yn tynnu sylw at bryderon ynghylch yr effeithiau negyddol posibl ar amrywiaeth deiliaid swyddi barnwrol a hyder y cyhoedd yn y farnwriaeth.

7. Ar ôl ystyried yn ofalus, mae'r llywodraeth wedi penderfynu codi'r oedran ymddeol gorfodol (MRA) ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol (JOH) i 75.

8. Yn ogystal ag adlewyrchu gwelliannau mewn disgwyliad oes, bydd cadw deiliaid swyddi barnwrol profiadol hŷn o ganlyniad i MRA uwch yn arwain at fanteision sylweddol i'r cyflenwad o adnoddau barnwrol a bydd yn rhoi budd cadarnhaol i'r rheini sy'n dymuno parhau i eistedd hyd at 75 oed, yn hytrach na gorfod ymddeol yn 70 oed. Yn ogystal, ein barn ni yw y gallai MRA uwch gael effaith gadarnhaol drwy ddenu a hyrwyddo cyfleoedd i unigolion sy'n ystyried gyrfa farnwrol yn ddiweddarach mewn bywyd, fel y rheini a allai fod heb gael gyrfa unionlin neu wedi cymryd seibiant gyrfa i gydbwyso cyfrifoldebau proffesiynol a theuluol.

9. Gallai cadw deiliaid swyddi hŷn gael effaith ar lif y penodiadau newydd i swyddi barnwrol, a allai effeithio ar gyfradd y newid yng nghyfansoddiad cyffredinol y farnwriaeth. Rydym wedi modelu'r effaith hon ar yr amrywiaeth bresennol o benodiadau. Ymhen amser, disgwyliwn y bydd amrywiaeth gyffredinol yn cynyddu os bydd amrywiaeth penodiadau newydd yn newid yn unol â mwy o amrywiaeth yn y biblinell farnwrol. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi ymrwymo, fel aelod o'r Fforwm Amrywiaeth Barnwrol a Grŵp Llywio Recriwtio a Denu Ynadon, i gefnogi camau gweithredu i wella amrywiaeth ar draws pob lefel o'r farnwriaeth a'u piblinell recriwtio.

10. Bydd yr MRA uwch hwn yn dileu'r angen am y ddarpariaeth bresennol sy'n caniatáu ar gyfer ymestyn penodiadau barnwrol y tu hwnt i'r MRA o 70 lle ceir budd i'r cyhoedd. Gyda'r MRA newydd o 75, ni fydd JOH ond yn gallu parhau i eistedd y tu hwnt i'r oedran hwn i orffen gwrando ar achos a gafodd ei glywed yn rhannol, neu yn achos crwneriaid, i gwblhau ymchwiliad sydd wrthi'n mynd rhagddo.

11. Bydd barnwyr cyflogedig sy'n dymuno parhau i weithio nes eu bod yn 75 oed, ond nad ydynt yn gallu gwneud hynny, neu y byddai'n well ganddynt beidio â gweithio'n llawn amser, yn gymwys i ymgeisio, yn unol â'r polisïau presennol, am drefniadau gweithio mwy hyblyg, gan gynnwys gweithio'n rhan amser ar gyflog.

12. Fel arall, bydd barnwyr cyflogedig cymwys yn parhau i allu ymgeisio i eistedd ar ôl ymddeol ar sail ad hoc gan dderbyn ffi, lle ceir angen busnes eithriadol na ellir ei ddiwallu fel arall drwy recriwtio neu drawsleoli. Byddwn yn deddfu i roi hyblygrwydd tebyg i farnwyr sy'n derbyn ffi. Er ein bod yn disgwyl y bydd y gwelliannau a ragwelir o ran recriwtio a chadw JOH sy'n deillio o MRA uwch o 75 yn lleihau'r angen busnes i farnwyr eistedd ar ôl ymddeol, mewn amgylchiadau eithriadol, mae'r gallu i ddefnyddio ein barnwyr sydd wedi ymddeol lle maent mor barod i wneud hynny yn parhau i fod yn hyblygrwydd pwysig i helpu i fodloni gofynion presennol llysoedd a thribiwnlysoedd, lle gallai fod prinder dros dro.

13. Yn wahanol i farnwyr (islaw yr Uchel Lys) y gellir ymestyn eu penodiadau ar hyn o bryd y tu hwnt i'r oedran ymddeol gorfodol o 70 ac sy'n gallu gwneud cais i eistedd ar sail ad

hoc ar ôl ymddeol, nid oes darpariaethau ar hyn o bryd i ynadon gael eu defnyddio y tu hwnt i'r oedran hwn. Er mwyn rhoi hwb pellach i gapasiti a lliniaru'r pwysau presennol o ran adnoddau ar lysoedd ynadon, byddwn yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i ynadon sydd wedi ymddeol yn ddiweddar, sydd dros 70 oed ond yn iau na'r MRA newydd o 75, wneud cais i ddychwelyd o'r rhestr ategol i'r rhestr weithredol, (i gael eu 'hailsefydlu') lle ceir angen busnes i wneud hynny.

14. Bydd y llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth newydd cyn gynted ag y bydd amser seneddol yn caniatáu i wneud y newidiadau a amlinellir yn yr ymateb hwn gan y llywodraeth.